CAIS AM ROI NEU ADNEWYDDU TYSTYSGRIF ARF TANIO A/NEU DDRYLL

DARLLENWCH Y NODIADAU'N OFALUS (TUDALENNAU 12-15) CYN LLENWI'R FFURFLEN GAIS

Gallwch deipio eich ymatebion ac eithrio lle mae angen eich llofnod. Fel arall, rhaid i chi ddefnyddio inc du ac ysgrifennu mewn **PRIFLYTHRENNAU** drwyddi draw, ac eithrio wrth arwyddo. Darperir taflen barhad ar dudalen 6 i gael rhagor o wybodaeth.

Rwy'n gwneud cais am (ticiwch bob blwch sy'n berthnasol)

- **Tystysgrif arf tanio** ☐ Rhoi ☐ Adnewyddu
- **Tystysgrif dryll** ☐ Rhoi ☐ Adnewyddu

A ydych chi am wneud cais am dystysgrif dryll a fydd yn dod i ben yr un pryd â'ch tystysgrif arf tanio? ☐ **Ydw** ☐ **Na**

RHAN A: Manylion personol.

1. Rhywedd ☐ Gwryw ☐ Benyw

2. Teitl.....

3. Cyfenw.....

4. Rhagenwau (nodwch bob un)

.....

5. Os ydych wedi defnyddio enw ar unrhyw adeg ar wahân i'r hyn a roddwyd mewn ateb i gwestiynau 3 a 4, llenwch isod:

Cyfenw(au) blaenorol .....

Enw(au) cyntaf blaenorol

.....

6. Cyfeiriad cartref .....

.....

.....

a. Cod post.....

b. Rhif ffôn y cartref .....

c. Rhif ffôn symudol .....

d. Ebost cartref .....

Unrhyw gyfeiriadau cartref blaenorol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf?

☐ Oes

☐ Nac oes (os mai 'oes' yw'r ateb, rhowch fanylion ar dudalen 2)

7. Taldra.....

8. Dyddiad geni.....

a. Man geni.....

b. Cenedligrwydd .....

9. Galwedigaeth.....

a. Cyfeiriad gwaith .....

.....

b. Cod post.....

c. Rhif ffôn y gwaith .....

d. Ebost gwaith .....

RHAN B: Iechyd personol a datganiad meddygol

Os oes angen, parhewch ar dudalen 7

Pwysig: Darllenwch nodiadau 4-14 cyn eu cwblhau.

10. A ydych chi erioed wedi cael diagnosis neu driniaeth ar gyfer unrhyw un o'r cyflyrau meddygol yn nodyn 5?

☐ Ydw (Rhowch fanylion) ☐ Nac ydw

.....

11. Manylion eich meddyg teulu neu feddygfa

a. Enw .....

b. Cyfeiriad .....

.....

.....

c. Cod post .....

d. Rhif ffôn .....

e. Ebost .....

12. Manylion yr holl feddygfeydd teulu blaenorol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf (gweler nodyn 12). Parhewch ar dudalen 6 os oes angen.

a. Enw .....

b. Cyfeiriad .....

.....

c. Cod post .....

d. Rhif ffôn .....

e. Ebost .....

A oes unrhyw gyfnodau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf pan nad ydych wedi cofrestru gyda meddyg teulu yn y DU neu wedi ymgynghori ag ymarferwyr meddygol heblaw yn eich practis meddyg teulu?

☐ Ydw (Rhowch fanylion ar y dudalen parhad)

☐ Nac ydw

Dyletswydd cyfrinachedd Byddaf yn trefnu i feddyg sydd â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru gyda'r GMC* ddarparu gwybodaeth ffeithiol i'r heddlu am unrhyw gyflyrau meddygol perthnasol sy'n gysylltiedig â'm haddasrwydd i feddu ar arf tanio neu ddryll. Rwy'n deall y gall y meddyg rannu fy nghofnodion meddygol gyda'r heddlu i'w galluogi i wneud penderfyniad cwbl wybodus ar fy nghais, neu ar fy addasrwydd parhaus i feddu ar arf tanio neu ddryll tra bo'r dystysgrif yn parhau'n ddilys, ac rwy'n cydsynio i rannu fy nghofnodion meddygol at ddibenion cyfrinachedd. Rwy'n deall fod disgwyl i mi roi gwybod i'r heddlu os caf ddiagnosis o gyflwr meddygol a restrir yn nodyn 6, neu os caf fy nhrin ar gyfer y fath gyflwr, tra bod y dystysgrif yn parhau'n ddilys.

*Meddyg sydd â chofrestriad llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) gyda'r GMC a thrwydded i ymarfer.

Enw'r ymgeisydd (PRIFLYTHRENNAU)			
Llofnod		Dyddiad	

Nodyn ar Ddiogelu Data Bydd data personol (gan gynnwys data personol sensitif) yn cael ei brosesu ar sail lles y cyhoedd, er mwyn caniatáu i'r heddlu asesu addasrwydd ymgeisydd i feddu ar dystysgrif arf tanio neu dryll, neu i asesu addasrwydd parhaus yr ymgeisydd i feddu ar arf tanio neu ddryll tra bod y dystysgrif yn parhau'n ddilys.

RHAN C: Troseddau

Pwysig: Darllenwch nodiadau 15 ac 16 cyn eu cwblhau

13. A ydych wedi'ch cael yn euog o unrhyw drosedd (gan gynnwys goryrru ond heb gynnwys troseddau parcio neu hysbysiadau cosb benodedig) neu wedi cael rhybudd ysgrifenedig?

☐ **Ydw** ☐ **Nac ydw**

Os mai 'ydw' yw'r ateb, rhowch fanylion am yr holl euogfarnau a/neu rybuddion ysgrifenedig ffurfiol gan yr heddlu, rhwymedigaethau i gadw'r heddwch ac euogfarnau a dreuliwyd, gan gynnwys y rhai a dderbyniwyd y tu allan i Brydain Fawr.

Dyddiad	**Trosedd**
.....	.....
.....	.....
.....	.....
.....	.....

Cyfeiriad(au) cartref blaenorol yn ystod y pum mlynedd diwethaf:

Cyfeiriad 1

.....

.....

..... Cod post.....

O ..... I .....

Cyfeiriad 2

.....

.....

..... Cod post.....

O ..... I .....

Cyfeiriad 3

.....

.....

..... Cod post.....

O ..... I .....

CAIS AM ROI NEU ADNEWYDDU TYSTYSGRIF ARF TANIO

RHAN Ch: Manylion arf tanio (os yw'n berthnasol). (Os ydych yn gwneud cais am dystysgrif DRYLL yn unig ewch i ran D)

14. Manylion arfau tanio a gedwir ar hyn o bryd. **PWYSIG: Darllenwch nodiadau 21 a 22 cyn cwblhau**

Os nad oes un, ysgrifennwch DIM yma:

Calibr Metric/Imperial	**Math**	**Math ee Winchester**	**Rhif Cyfresol/rhif adnabod a'r adnabod unigryw Marciwch fel y'i gwelir ar ffrâm neu dderbynnydd yr arf tanio a, lle bo'n wahanol, y marc adnabod unigryw fel y'i gwelir ar bob cydran berthnasol**	**Rheswm ee Targed, fermin (rhowch fanylion tir/clwb os gwelwch yn dda)**

15. Manylion arfau tanio i'w caffael. **PWYSIG: Darllenwch nodiadau 21 a 22 cyn eu cwblhau**

Os nad oes un, ysgrifennwch DIM yma:

Calibr Metric/Imperial	**Math**	**Rheswm ee Targed, fermin (rhowch fanylion tir/clwb os gwelwch yn dda)**

16. Manylion am uchafswm yr arfau sydd i'w meddu

Calibr Metric/Imperial	Nifer	Calibr Metric/Imperial	Nifer

17. Manylion trefniadau diogelwch cyfredol (neu yn achos grant, arfaethedig)

a. A yw'r trefniadau diogelwch yn eich cyfeiriad cartref? ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt - rhowch fanylion

.....

b. Math o ddiogelwch:

☐ cabinet ☐ clamp ☐ ystafell ynnau ☐ arall - rhowch fanylion

.....

c. A yw'r diogelwch yn cael ei rannu â deiliad tystysgrif arall? ☐ Ydy - rhowch fanylion ☐ Nac ydy

.....

d. Storio bwledi – rhowch fanylion

.....

CAIS AM GRANT NEU ADNEWYDDU TYSTYSGRIF DRYLL

RHAN D: Manylion dryll (os yw'n berthnasol).

18. Manylion drylliau a gedwir ar hyn o bryd.

Os nad oes un ysgrifennwch DIM yma

Calibr/Bôr neu led	**Gweithredu/Math**	**Math**	**Rhif Cyfresol/rhif adnabod a'r marc adnabod unigryw fel y'i gwelir ar ffrâm neu dderbynnydd y dryll a, lle bo'n wahanol, y marc adnabod unigryw fel y'i gwelir ar bob cydran berthnasol**

19. Manylion trefniadau diogelwch cyfredol (neu yn achos grant, arfaethedig)

a. A yw'r trefniadau diogelwch yn eich cyfeiriad cartref? ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt - rhowch fanylion

.....

b. Math o ddiogelwch:

☐ cabinet ☐ clamp ☐ ystafell ynnau ☐ arall - rhowch fanylion

.....

c. A yw'r diogelwch yn cael ei rannu â deiliad tystysgrif arall? ☐ Ydy - rhowch fanylion ☐ Nac ydy

.....

TAFLEN BARHAD

Defnyddiwch y gofod hwn i gael unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â rhannau A-D y ffurflen hon:

.....

DATGANIAD

Rwyf drwy hyn yn gwneud cais am

☐ **Tystysgrif arf tanio** ☐ **Tystysgrif dryll**

Mae'r wybodaeth yr wyf wedi'i darparu ar y ffurflen hon yn wir a deallaf ei bod yn drosedd o dan adran 28A(7) o Ddeddf Arfau Tanio 1968 i wneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid er mwyn caffael grant neu adnewyddu tystysgrif, y gosb uchaf yw chwe mis o garchar a/neu ddirwy. Deallaf y byddaf yn destun gwiriad o gofnodion yr heddlu ac y bydd fy manylion yn cael eu cadw'n electronig.

Rwy'n deall, os nad wyf yn darparu'r wybodaeth ofynnol, na ellir prosesu fy nghais a chaiff ei wrthod.

Deallaf fod disgwyl i mi roi gwybod i'r heddlu os caf ddiagnosis o gyflwr meddygol a restrir yn nodyn 5, neu'n cael fy nhrin ar ei gyfer, tra bod y dystysgrif yn parhau'n ddilys.

Diogelu Data

Deallaf y bydd yr holl wybodaeth a gyflwynir yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a deddfwriaeth gysylltiedig. Deallaf y gellir rhannu gwybodaeth a gynhwysir yn fy ffurflen gais neu a gafwyd wrth benderfynu ar y cais gyda: fy meddyg, adrannau eraill y llywodraeth, cyrff rheoleiddio neu asiantaethau gorfodi wrth benderfynu ar y cais neu'n unol â chynnal diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

Noder: Bydd unrhyw wybodaeth a rennir yn cael ei rhannu yn unol â phrotocolau rhannu data. Nid yw'r heddlu'n rhannu eich manylion personol ag ymgeiswyr eraill nac aelodau o'r cyhoedd ac yn trin gwybodaeth mewn cysylltiad â'r cais yn gyfrinachol, ond dylai unigolion fod yn ymwybodol y gall yr heddlu ddatgelu rhywfaint o wybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati uchod.

Bydd eich data personol yn cael ei brosesu gan yr heddlu yr ydych yn gwneud cais iddo yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac fel y nodir yn Hysbysiad Gwybodaeth Preifatrwydd yr heddlu.

☐ Rwyf wedi rhoi manylion y canolwr/wyr

☐ Rwyf wedi amgáu'r ffi

☐ Rwyf wedi darllen y Nodiadau (tudalennau 12-15)

☐ Rwyf wedi amgáu un ffotograff

Llofnod: .....

Enw mewn priflythrennau:
.....

Dyddiad: .....

Os yw'r ymgeisydd o dan 18 oed, rhaid cwblhau'r canlynol

☐ **Rhiant** neu ☐ **Warcheidwad**

Llofnod: .....

Enw mewn priflythrennau:
.....

Dyddiad: .....

CAIS AM GRANT NEU ADNEWYDDU TYSTYSGRIF ARF TANIO A/NEU DDRYLL

RHAN Dd: Manylion canolwr ar gyfer tystysgrifau arf tanio a/neu ddryll. Teipiwch neu ysgrifennwch mewn PRIFLYTHRENNAU. Gweler nodiadau 1 a 2.

Rhowch fanylion person addas sydd wedi cytuno i weithredu fel canolwr i chi.

1. Teitl.....

2. Cyfenw.....

2a. Enw(au) cyntaf .....

3. Enw(au) blaenorol yr ydych yn ymwybodol y gelwyd y canolwr .....

4. a. Dyddiad geni .....

b. Man geni .....

5. Galwedigaeth .....

6. Cyfeiriad cartref .....

.....

..... Cod post.....

7. Rhif ffôn cartref .....

a. Rhif ffôn gwaith .....

b. Rhif ffôn symudol .....

c. Ebost cartref .....

d. Ebost gwaith .....

8. Sut rydych chi'n adnabod y canolwr? .....

9. Ers faint mae'r canolwr wedi'ch adnabod chi? .....

CAIS AM ROI NEU ADNEWYDDU TYSTYSGRIF ARF TANIO

RHAN E: Manylion yr ail ganolwr. Teipiwch neu ysgrifennwch mewn PRIFLYTHRENNAU

<u>DIM OND</u> ar gyfer tystysgrif arf tanio y mae angen ail ganolwr. Gweler nodiadau 1 a 2

Rhowch fanylion person addas sydd wedi cytuno i weithredu fel canolwr i chi.

1. Teitl .....

2. Cyfenw .....

2a. Enw(au) cyntaf .....

3. Enw(au) blaenorol yr ydych yn ymwybodol y gelwyd y canolwr.....

4. a. Dyddiad geni .....

b. Man geni .....

5. Galwedigaeth .....

6. Cyfeiriad Cartref .....

.....

..... Cod post.....

7. Rhif ffôn cartref .....

a. Rhif ffôn gwaith.....

b. Rhif ffôn symudol .....

c. Ebost cartref .....

d. Ebost gwaith .....

8. Sut rydych chi'n adnabod y canolwr?.....

9. Ers faint mae'r canolwr wedi'ch adnabod chi?.....

Mae'r dudalen hon wedi ei gadael yn wag er mwyn eich galluogi i ddatgysylltu'r wybodaeth cydraddoldeb oddi wrth weddill y cais.

RHAN F: Cydraddoldeb (Ticiwch y blychau priodol)

GWYBODAETH CYDRADDOLDEB

1. ☐ Byddai'n well gen i beidio ag ateb unrhyw un o'r cwestiynau canlynol.

2. A oes gennych chi anabledd?

☐ Oes ☐ Nac oes

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

3. Beth yw eich grŵp ethnig?

A. Gwyn

☐ Saesneg

☐ Cymreig

☐ Albanaidd

☐ Gogledd Iwerddon

☐ Prydeinig

☐ Gwyddelig

☐ Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig

☐ Unrhyw gefndir gwyn arall, nodwch:

.....

B. Grwpiau ethnig cymysg/lluosog

☐ Gwyn a Du Caribïaidd

☐ Gwyn a Du Affricanaidd

☐ Gwyn ac Asiaidd

☐ Unrhyw gefndir ethnig cymysg/lluosog arall, nodwch:

.....

C. Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

☐ Indiaidd

☐ Pacistanaidd

☐ Bangladeshaidd

☐ Tsieineaidd

☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall, nodwch:

.....

D. Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du

☐ Affricanaidd

☐ Caribïaidd

☐ Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall, nodwch:

.....

E. Grŵp ethnig arall

☐ Arabaidd

☐ Unrhyw grŵp ethnig arall, nodwch:

.....

F. ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

4. Rhywedd

☐ Gwryw ☐ Benyw Mae'n well gen i beidio â dweud

5. Beth yw eich grŵp oedran?

Grŵp oedran	Ticiwch
66 oed ac uwch	☐
61-65	☐
56-60	☐
51-55	☐
46-50	☐
41-45	☐
36-40	☐
31-35	☐
26-30	☐
21-25	☐
18-20	☐
Dan 18 oed	☐

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

NODIADAU

Darllenwch y rhain CYN llenwi'r ffurflen

Rhaid i chi lenwi pob rhan o'r ffurflen ar gyfer y math o dystysgrif rydych yn gwneud cais amdani. Ar gyfer ceisiadau electronig, rhaid cwblhau pob maes data.

ARF TANIO: Mae Adran 1 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 (fel y'i diwygiwyd) yn gymwys i bob arf tanio ac eithrio:

i. dryll;
ii. arf aer (oni bai ei fod wedi'i ddatgan yn 'arbennig o beryglus');
iii. arfau gwaharddedig fel reifflau aethu canolog hunanlwytho, gynnau llaw, gynnau peirianyddol ac ati (oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi'n benodol).

DRYLL: Adran 1(3)a o Ddeddf Arfau Tanio 1968 (fel y'i diwygiwyd) yn diffinio dryll fel a ganlyn:

i. gwn bôr llyfn (heb fod yn arf aer);
ii. bod â baril sydd heb fod yn llai na 24" (60.96com) o hyd a bôr nad yw'n fwy na 2" (5.08cm) mewn diamedr;
iii. naill ai heb magasîn, neu magasîn na ellir ei dynnu ac na ellir dal mwy na dwy getrisen;
iv. ddim yn wn rifolfer.

Canolwyr

1. Wrth wneud cais am **dystysgrif arf tanio**, dylech fod wedi cael caniatâd dau berson sydd wedi cytuno i weithredu fel canolwyr i chi. Rhaid i chi gwblhau Rhannau Dd a E gyda'u manylion. Wrth wneud cais am **dystysgrif dryll**, dylech fod wedi cael caniatâd un person sydd wedi cytuno i weithredu fel canolwr i chi. Rhaid i chi gwblhau Rhan Dd gyda'u manylion.

2. Rhaid i'r canolwr/wyr sydd wedi cytuno i weithredu ar eich rhan fod wedi eich adnabod yn bersonol am o leiaf ddwy flynedd a rhaid iddo/iddi fod yn preswylio ym Mhrydain Fawr. Ni ddylai canolwr fod yn aelod o'ch teulu agos, deliwr arfau tanio cofrestredig, swyddog heddlu sy'n gwasanaethu, gweithiwr heddlu, Comisiynydd Heddlu a Throseddu neu aelod o'u staff, neu aelod o Awdurdod Heddlu'r Alban, neu aelod o staff. Rhaid i ganolwyr fod o gymeriad da a rhaid rhoi unrhyw gyfeiriadau y maent yn cytuno i'w darparu yn rhydd ac nid ar daliad.

Ceisiadau cydffinio

3. I wneud cais am **dystysgrif arf tanio** a **thystysgrif dryll** au bod yn dod i ben ar yr un pryd (tystysgrifau cyd-derfynol), dylech gwblhau'r adrannau ar gyfer tystysgrifau arf tanio a dryll. Gall y ffi sy'n daladwy am dystysgrifau o'r fath fod yn llai na'r ffi arferol am roi neu adnewyddu tystysgrif dryll os ymdrinnir â'r ddau gais ar yr un pryd.

Gwybodaeth feddygol

4. Rhaid i chi ddatgelu unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol perthnasol y cawsoch ddiagnosis ohonynt neu eich trin ar eu cyfer yn y gorffennol gan y gallai hyn effeithio ar eich gallu i feddu'n ddiogel ar arf tanio neu ddryll a'u defnyddio. Rhestrir cyflyrau meddygol perthnasol y mae'n rhaid eu datgelu yn nodyn 5. Mae adrannau 27 a 28 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi, er mwyn cyflwyno tystysgrif arf tanio neu ddryll, fod yn rhaid i brif swyddog yr heddlu fod yn fodlon y gellir caniatáu i geisydd feddu ar gwn 'heb berygl i ddiogelwch y cyhoedd na'r heddwch'. Addasrwydd meddygol yw un o'r ffactorau y mae'n rhaid i'r heddlu eu hystyried wrth asesu addasrwydd person.

5. Y cyflyrau meddygol perthnasol y mae'n rhaid eu datgelu yw:
   - Ymateb Straen Acìwt neu ymateb acíwt i'r straen a achosir gan drawma, gan gynnwys anhwylder straen wedi trawma
   - Meddyliau hunanladdol neu hunan-niweidio neu niwed i eraill
   - Iselder neu orbryder
   - Dementia
   - Mania, anhwylder deubegynol neu salwch seicotig
   - Anhwylder personoliaeth
   - Cyflwr niwrolegol: er enghraifft, Sglerosis Ymledol, clefyd Parkinson neu Huntington, neu epilepsi
   - Camddefnyddio alcohol neu gyffuriau
   - Unrhyw gyflwr meddyliol neu gorfforol arall, neu gyfuniad o gyflyrau, a allai fod yn berthnasol yn eich barn chi.

   Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'ch meddyg neu cysylltwch ag adran drwyddedu arfau tanio'r heddlu.

6. Eich cyfrifoldeb chi yw trefnu i'ch meddyg teulu neu feddyg arall sydd â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru gyda'r GMC* (gan gynnwys lle mae meddyg yn darparu'r gwasanaeth hwn i gwmni preifat) ddarparu gwybodaeth feddygol i'r heddlu ynghylch eich addasrwydd i feddu ar arf tanio a/neu ddryll. Defnyddiwch lythyr y meddyg a'r ffurflen gwybodaeth feddygol sy'n rhan o'r ddogfen hon, torrwch nhw oddi ar y ddogfen a rhowch nhw i'r meddyg i'w cwblhau. Disgwylir i chi dalu'r gost os codir ffi am hyn. Pan fydd y wybodaeth feddygol yn cael ei darparu i'r heddlu gan feddyg o gwmni preifat, rhaid i'r meddyg dderbyn gwybodaeth feddygol yr ymgeisydd yn uniongyrchol gan y meddyg teulu ac nid drwy'r ymgeisydd.

7. O ran diogelu data, dylid nodi y bydd y wybodaeth feddygol yn cael ei phrosesu ar sail lles y cyhoedd at y diben plismona cyfreithlon o asesu addasrwydd rhywun i feddu ar dystysgrif arf tanio neu ddryll.

8. Mae ymarferwyr meddygol wedi gofyn ar wahân i gydsyniad ymgeisydd gael ei ddarparu er mwyn i ymarferwyr meddygol fod yn fodlon eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau o dan eu dyletswydd cyfrinachedd mewn perthynas â'u cleifion. Mae'r ffurflen gais yn gofyn am gydsyniad yr ymgeisydd i ryddhau'r wybodaeth am y rheswm hwnnw.

9. Os yw'r meddyg yn nodi bod problemau meddygol perthnasol a bod angen rhagor o wybodaeth feddygol ar yr heddlu i ystyried y cais, dylech geisio adroddiad am y materion meddygol hyn. Disgwylir i chi dalu'r gost os codir ffi am hyn. Yn dilyn hyn, os bydd yr heddlu'n gofyn am ddarparu adroddiad ychwanegol byddant yn talu cost y ffi a godir.

10. Bydd yr heddlu yn gofyn i'ch meddyg teulu roi nodyn atgoffa wedi'i amgodio ar eich cofnod claf i ddangos eich bod wedi derbyn tystysgrif arf tanio neu ddryll. Gofynnir i'r meddyg teulu roi gwybod i'r heddlu os byddwch, ar ôl cyflwyno'r dystysgrif, yn cael diagnosis neu'n cael eich trin ar gyfer cyflwr meddygol perthnasol (a restrir yn nodyn 5), neu os oes gan y meddyg teulu bryderon eraill am eich gallu i feddu'n ddiogel ar arfau tanio. Yn dilyn cyswllt gan eich meddyg teulu, efallai y bydd angen cael adroddiad meddygol i helpu i asesu eich addasrwydd parhaus i feddu ar dystysgrif arf tanio neu ddryll. Bydd yr heddlu'n talu os oes angen adroddiad meddygol.

11. Yn dilyn cyhoeddi tystysgrif arf tanio neu ddryll, nodwch fod y datganiad yr ydych wedi'i lofnodi yn cydsynio i rannu gwybodaeth rhwng eich meddyg a'r heddlu yn berthnasol yn ystod y broses ymgeisio ac yn ystod dilysrwydd unrhyw dystysgrif arf tanio neu ddryll, a all fod hyd at bum mlynedd.

12. Disgwylir i chi roi gwybod i'r heddlu os byddwch, ar ôl cyhoeddi'r dystysgrif, yn cael diagnosis

neu'n cael eich trin am gyflwr meddygol perthnasol tra bod y dystysgrif yn parhau'n ddilys.

13. Dylech roi gwybod i'r heddlu os byddwch yn newid eich meddygfa a darparu manylion cyswllt ar gyfer y feddygfa newydd.

14. Gofynnir i chi ddarparu manylion practisau meddygon teulu dros y 10 mlynedd diwethaf a nodi a ydych wedi ymgynghori ag ymarferwyr meddygol heblaw eich meddyg teulu fel bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i'r heddlu i'w helpu i asesu addasrwydd i feddu ar dystysgrif arf tanio neu ddryll. Efallai y bydd personél milwrol sy'n cael eu postio dramor ac sydd â meddyg teulu yn dal i gael eu hystyried yn preswylio yn y DU at ddibenion y cais.

Euogfarnau a throseddau

15. Ni ddylech atal gwybodaeth am **unrhyw euogfarn**. Mae hyn yn cynnwys troseddau moduro (gan gynnwys troseddau goryrru), rhwymedigaethau i gadw'r heddwch, rhybuddion ysgrifenedig ffurfiol ac euogfarnau ym Mhrydain Fawr a'r tu allan iddi, ac (yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975) euogfarnau a dreuliwyd o dan Ddeddf 1974. Mae rhyddhau amodol a rhyddhau absoliwt yn cyfrif fel euogfarnau at y diben hwn. Nid oes angen rhagddatgan manylion am droseddau parcio a hysbysiadau cosb benodedig.

16. Mae Adran 21 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 yn gosod cyfyngiadau ar feddiannu arfau Tanio a bwledi gan y rhai hynny a gafwyd yn euog o droseddu yn y gorffennol. Gwaherddir person sy'n cael dedfryd o garchar o dri mis neu fwy rhag meddu ar arf tanio, dryll, arf tanio hynafol, arf aer neu fwledi am bum mlynedd o ddyddiad eu rhyddhau. Yn achos dedfryd ohiriedig, mae'r gwaharddiad yn gymwys o'r ail ddiwrnod ar ôl dedfrydu. Os yw'r ddedfryd yn dair blynedd neu fwy mae'r gwaharddiad yn gymwys am oes oni bai ei fod wedi'i godi gan Lys y Goron (neu Siryf).

Archwilio safleoedd

17. Caniatewch i'r heddlu archwilio eich gynnau a'ch diogelwch pan ddaw cais ganddynt oherwydd, yn absenoldeb warant, mae caniatâd yn ofynnol i'r heddlu archwilio safleoedd.

Ffotograff

18. Rhaid defnyddio ffotograff digidol ar gyfer ceisiadau ar-lein. Rhaid anfon un ffotograff gyda cheisiadau papur. Mae ffotograffau pasbort cyffredin (45mm o uchder x 35mm o led) yn addas at y diben hwn. Rhaid i ffotograffau fod o safon broffesiynol, yn erbyn cefndir hufen neu lwyd plaen a heb wrthrychau neu bobl eraill yn y cefndir ac (os cânt eu hargraffu) fod ar bapur sglein neu matt o ansawdd da. Rhaid i'r ffotograff fod yn wir debygrwydd ac wyneb llawn heb orchudd pen (oni bai ei fod yn cael ei wisgo am resymau crefyddol neu feddygol). Yn eich ffotograff mae'n rhaid i chi fod yn edrych yn syth at y camera, bod â mynegiant niwtral, gyda'ch llygaid ar agor a'ch ceg ar gau. Rhaid i chi beidio â gwisgo sbectol haul na sbectol gydag arlliw, ac ni ddylai'r ffotograffau fod ag unrhyw 'lygad coch'.

Monitro cydraddoldeb

19. Nod y wybodaeth monitro cydraddoldeb a ddarperir gennych yn Rhan F yw cynorthwyo'r heddlu i gyflawni eu dyletswyddau fel Awdurdod Cyhoeddus. Bydd y wybodaeth yn cael ei chadw ar wahân i'r cais.

Cyflwyno'r cais

20. Bydd y system yn cynhyrchu'r dderbynneb yn awtomatig ar gyfer ceisiadau electronig, lle mae'r rhain ar gael. Ar gyfer ceisiadau copi caled, oni bai bod yr heddlu'n cynghori fel arall, dylech bostio neu fynd â'r ffurflen wedi'i chwblhau ynghyd â'r ffi a'r ffotograff i adran drwyddedu arfau tanio'r heddlu. Yn achos cais am adnewyddu, dylid anfon copi diweddar wedi'i lofnodi a'i ddyddio o'r dystysgrif i'w hadnewyddu at yr heddlu pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais. Os byddwch yn gwneud cais am amrywiad, rhaid cynnwys y dystysgrif sydd i'w hamrywio gyda'ch cais. (Efallai yr hoffech chi gadw copi o'r dystysgrif.)

Adran 1 Arfau Tanio yn Unig

21. I gaffael neu feddu ar arfau tanio neu fwledi o dan adran 1 o Ddeddf Arfau Tanio 1968, mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth bod gennych **reswm da** i wneud hynny. Mae hyn yn berthnasol i roi, adnewyddu neu amrywio tystysgrif arf tanio. Gall y dystiolaeth hon fod ar sawl ffurf: mae caniatâd i saethu dros dir neu aelodaeth o glwb tanio targed, neu archebu neu wahoddiad i fynd i hela ceirw yn enghreifftiau, ond nid yw'r rhain yn gynhwysfawr.

22. Rhowch gyfeiriad un darn o dir lle mae gennych ganiatâd i saethu, ynghyd ag enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person sydd wedi rhoi'r caniatâd hwnnw i chi neu fanylion clwb cymeradwy'r Swyddfa Gartref yr ydych yn aelod llawn ohono.
NB: Ni fyddwch o reidrwydd yn cael eich cyfyngu i saethu dros y darn unigol hwnnw o dir nac yn y clwb hwnnw.

* Meddyg sydd â chofrestriad llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) gyda'r GMC a thrwydded i ymarfer.

Mae'r dudalen hon wedi ei gadael yn wag er mwyn caniatáu i lythyr y meddyg a'r ffurflen gwybodaeth feddygol gael eu datgysylltu oddi wrth weddill y cais.

Enw'r Meddyg:		Enw'r Ymgeisydd:	
Cyfeiriad		Dyddiad geni:	
		Cyfeiriad:	
Cod Post:			
		Cod Post:	
		Rhif Ffôn:	
		Cyfeiriad ebost:	

Annwyl Feddyg,

Rwy'n gwneud cais am dystysgrif arf tanio/tystysgrif dryll/i gael fy nghofrestru fel gwerthwr arfau tanio.

Ceisiadau arfau tanio ac addasrwydd meddygol

Mae'r heddlu'n asesu ceisiadau arfau tanio ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ffeithiol gan feddyg yn cadarnhau a yw erioed wedi cael diagnosis neu wedi cael ei drin ar gyfer unrhyw un o'r cyflyrau canlynol, a all effeithio ar b'un a yw'n addas i berson feddu ar dystysgrif arfau tanio:

- Ymateb Straen Acìwt neu ymateb acíwt i'r straen a achosir gan drawma, gan gynnwys anhwylder straen wedi trawma
- Meddyliau hunanladdol neu hunan-niweidio neu niwed i eraill
- Iselder neu orbryder
- Dementia
- Mania, anhwylder deubegynol neu salwch seicotig, neu anhwylder personoliaeth
- Cyflwr niwrolegol: er enghraifft, Sglerosis Ymledol, clefyd Parkinson neu Huntington, neu epilepsi
- Camddefnyddio alcohol neu gyffuriau
- Unrhyw gyflwr meddyliol neu gorfforol arall, neu gyfuniad o gyflyrau, a allai fod yn berthnasol yn eich barn chi.

Noder nad yw'r heddlu'n gofyn am eich barn ar fy addasrwydd i feddu ar dystysgrif arfau tanio, gan mai'r heddlu sy'n gyfrifol am y penderfyniad hwn. Dim ond ymateb ffeithiol sydd ei angen arnynt, gan feddyg sydd â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru gyda'r GMC yn seiliedig ar fy nghofnod meddygol.

* Meddyg sydd â chofrestriad llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) gyda'r GMC a thrwydded i ymarfer.

Gwybodaeth y gofynnir amdani gan feddyg sydd wedi'i gofrestru gyda'r GMC

Os oes hanes o unrhyw un o'r cyflyrau meddygol perthnasol a restrir, dylech gynnwys y canlynol yn yr ymateb:

1. Enw'r cyflwr meddygol
2. Hyd y cyflwr meddygol
3. Meddyginiaeth a ragnodwyd

Noder mai dim ond gwybodaeth am unrhyw gyflwr / cyflyrau meddygol perthnasol y dylid ei darparu. Felly, nid yw allbrint o'm hanes meddygol yn dderbyniol at y diben hwn.

Ffioedd meddygon

Os bydd ffi yn daladwy, anfonwch anfoneb i'm cyfeiriad cartref. Rwy'n deall na fydd y wybodaeth yn cael ei darparu nes bod y ffi, os oes un, wedi'i thalu.

Sut i ymateb

Dylid anfon eich ymateb at adran drwyddedu arfau tanio'r heddlu lleol drwy ebost y GIG, neu dylid ei anfon drwy'r post. Fel arall, cysylltwch â mi fel y gallaf ei gasglu. Os rhoddir yr ymateb i mi i'w roi i'r heddlu, efallai y byddant yn cysylltu â chi i gadarnhau'r manylion.

Pan fydd y wybodaeth feddygol yn cael ei darparu i'r heddlu gan feddyg o gwmni preifat, rhaid i'r meddyg dderbyn gwybodaeth feddygol yr ymgeisydd yn uniongyrchol gan y meddyg teulu ac nid drwy'r ymgeisydd.

Unwaith y bydd yr heddlu wedi ystyried eich ymateb, efallai y byddant am weld adroddiad meddygol am unrhyw gyflyrau meddygol perthnasol yr wyf wedi'u profi fel y gallant roi ystyriaeth bellach i'm cais. Fi fydd yn gyfrifol am y ffioedd meddygol er mwyn darparu adroddiad.

Nod arfau tanio

Rhowch faner 'cais arfau tanio wedi ei wneud' ar y cofnod claf. Os rhoddir tystysgrif arfau tanio i mi, bydd yr heddlu'n cysylltu â chi i ofyn i chi osod baner 'yn meddu ar dystysgrif arfau tanio ar fy nghofnod claf. Mae hyn er mwyn i'r heddlu gael gwybod os byddaf yn dechrau profi unrhyw un o'r cyflyrau meddygol perthnasol a restrir tra bo'r dystysgrif arfau tanio yn dal yn ddilys. Yna bydd yr heddlu'n adolygu fy addasrwydd i barhau fel deiliad tystysgrif arfau tanio.

Rhagor o wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, ffoniwch neu e-bostiwch adran trwyddedu arfau tanio'r heddlu

lleol. Diolch am eich cymorth.

Yn gywir,

_____ Llofnod yr ymgeisydd

CYDSYNIAD

Rwy'n deall y gall meddyg rannu data personol sensitif gyda'r heddlu ynghylch fy iechyd corfforol a meddyliol i alluogi'r heddlu i wneud penderfyniad ar fy nghais, neu ar fy addasrwydd parhaus i feddu ar dystysgrif arfau tanio/cael fy nghofrestru fel gwerthwr arfau tanio, a thrwy hyn rwy'n cydsynio i fy nata personol gael ei brosesu at y diben hwn.

Rwy'n deall y bydd yr heddlu'n prosesu'r wybodaeth feddygol a ddarperir er lles y cyhoedd at ddiben plismona cyfreithlon asesu addasrwydd rhywun i feddu ar dystysgrif arfau tanio neu ddrylliau.

Rwy'n deall fod ymarferwyr meddygol wedi gofyn i'm caniatâd gael ei ddarparu mewn perthynas â'u dyletswydd cyfrinachedd i ganiatáu i feddygon ddarparu gwybodaeth i'r heddlu, a fydd wedyn yn prosesu'r data fel y disgrifir uchod.

Rwy'n deall y gall yr heddlu gysylltu â'm meddyg neu arbenigwr meddygol i gael manylion ffeithiol am unrhyw hanes meddygol mewn perthynas â'm haddasrwydd i feddu ar arf tanio neu ddryll. Mae hyn yn berthnasol drwy gydol oes y dystysgrif

Trwyddedu Arfau Tanio

Ffurflen Gwybodaeth Feddygol

Ni ddylid diwygio'r ffurflen hon ar ôl i'r meddyg ei chwblhau. Mae Deddf Arfau Tanio 1968 yn nodi ei bod yn drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid er mwyn cael neu adnewyddu tystysgrif; y gosb uchaf yw chwe mis o garchar a/neu ddirwy.

*Meddyg sydd â chofrestriad llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) gyda'r GMC a thrwydded i ymarfer.

MANYLION Y CLAF

Teitl: _____ Enw Llawn: _____

Cyfeiriad Cartref: _____

_____

_____

Dyddiad Geni: _____

Cyfeiriad ebost: _____

GWYBODAETH FEDDYGOL: I'w gwblhau gan y meddyg*

*Meddyg sydd â chofrestriad llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) gyda'r GMC a thrwydded i ymarfer.

Gwiriwch gofnod meddygol y claf i weld a oes unrhyw hanes o'r canlynol a thiciwch y rhai sy'n berthnasol. Os oes unrhyw un yn berthnasol, ychwanegwch dros y dudalen ragor o fanylion y gellir eu cyfyngu i ddatganiad o ffaith ac nid barn.

A ydych wedi cael mynediad at gofnodion meddygol llawn y claf i gwblhau'r adroddiad hwn?	Ydw ☐	Nac ydw ☐
A yw'r cofnod meddygol yn ddi-dor?	Ydy ☐	Nac ydy ☐
A ydych chi wedi gosod baner 'cais arfau tanio wedi ei wneud' ar gofnod y claf?	Ydw ☐	Nac ydw ☐

DYDDIAD Y MAE'R COFNODION YN DECHRAU: ____ DYDDIAD YR YMGYNGHORIAD DIWETHAF: ____

Ymateb Straen Acìwt neu ymateb acíwt i'r straen a achosir gan drawma, gan gynnwys anhwylder straen wedi trawma	Oes ☐	Nac oes ☐	Anhwylder personoliaeth	Oes ☐	Nac oes ☐
Meddyliau hunanladdol neu hunan-niweidio neu niwed i eraill	Oes ☐	Na oes ☐	Cyflwr niwrolegol: er enghraifft, Sglerosis Ymledol, clefyd Parkinson neu Huntington, neu epilepsi	Oes ☐	Nac oes ☐
Iselder neu orbryder	Oes ☐	Nac oes ☐	Camddefnyddio alcohol neu gyffuriau	Oes ☐	Nac oes ☐
Dementia	Oes ☐	Nac oes ☐	Unrhyw gyflwr meddyliol neu gorfforol arall, neu gyfuniad o gyflyrau, a allai effeithio ar y gallu i feddu ar arfau tanio neu ddrylliau'n ddiogel.	Oes ☐	Nac oes ☐
Mania, anhwylder deubegynol neu salwch seicotig	Oes ☐	Nac oes ☐			

LLOFNODWCH DROS Y DUDALEN OS GWELWCH YN DDA. RHOWCH RAGOR O WYBODAETH OS YDYCH WEDI TICIO OES I UNRHYW UN O'R CWESTIYNAU UCHOD.

Enw'r Claf:	Dyddiad geni:

Beth yw'r cyflwr meddygol neu'r cyflyrau meddygol?

Ers faint o amser mae'r claf wedi cael ei drin ar gyfer y cyflwr hwn?

A yw'r claf yn dal i gael ei drin ar gyfer hyn?

Manylion y feddyginiaeth a ragnodwyd

A fu unrhyw achosion blaenorol o'r cyflwr hwn?

Beth yw cyflwr presennol y claf?

A oes gennych unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i'r heddlu wrth benderfynu a yw'n ddiogel i'r claf feddu ar arfau tanio?

Enw'r meddyg: _____

Stamp y practis:

Llofnod y meddyg _____

Rhif GMC: _____

Dyddiad: _____